| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig** |
| DYDDIAD | **20 Tachwedd 2015** |
| TEITL YR ADRODDIAD | **Adolygiad Cyfrifon 2015/2016** |
| ADRODDIAD GAN | **Pennaeth Gwasanaeth Cyllid** |

---

**Adolygiad Cyfrifon 2015/2016**

1.0 Mae sefydliad staffio parhaol y Cyd-Bwyllgor yn cyfateb i -

- 8.1 seicolegwyr
- 7.6 athrawon arbenigol
- 6.4 staff gweinyddol

Ar sail y sefydliad yma mae cyllideb y Cyd-Bwyllgor wedi'i greu.

2.0 Dyma newidiadau staffio y Cyd-Bwyllgor,hyd yma, yn ystod 2015/16.

**2.1 Seicolegwyr –**

- 6.7 parhaol 1.0 dros dros wedi gorffen Awst 2015 a 2 dan hyfforddiant
- **Arbedion oddeutu £60mil** gydag eflen wedi'i gynllunio ar gyfer costau hyfforddi

**2.2 Tîm Athrawon Arbenigol –**

- Ar gychwyn y flwyddyn ariannol roedd 6.9 athro parhaol a 3.2 o athrawon dros dro yn cael eu cyflogi
- Yn Awst 2015 daeth cyflogaeth 1.2 o'r athrawon dros dro i ben
- Yn Rhagfyr 2015 bydd cyflogaeth athrawes parhaol 0.9 yn dod i ben
- Rhagwelir y sefyllfa yn Ionawr 2016 yn 6.0 athrawon parhaol a 2.0 dros dro
- Cyflogwyd cymorthyddion i atgyfnerthu'r tîm athrawon – 1.6 parhaol a 0.6 dros dro
- Yn Awst 2015 daeth cyflogaeth y cymorthyddion dros dro i ben
- **Gorwariant oddeutu £121mil**

**2.3 Staff Gweinyddol –**

- 5.9 o staff ar gychwyn y flwyddyn
- 0.5 swydd gwag am flwyddyn gyfan
- Swydd yr Uwch Swyddog Gweinyddol wedi bod yn wag am bron i 4 mis
- 0.4 swydd gwag o Ionawr 2016 ymlaen
- **Arbedion oddeutu £25mil**

2.4 Gorwariant net ar gostau staff yn 2015/16 felly yn £36mil yn erbyn y gyllideb.

3.0 Cyfwerth a **£9mil** o gostau hyfforddiant yn rhan o'r strategaeth i sicrhau cyflenwad o staff cymwysedig Cymraeg i'r dyfodol – yn cael ei gyllido o arbedion cyflogi seicolegwyr.

4.0 Mae Swyddfeydd y Cyd-Bwyllgor bellach yn adeilad Penrallt yng Nghaernarfon. Bron i **£17mil** o gynnydd yn y costau rhent yn bennaf oherwydd gofod mwy. Mae angen darganfod arbedion parhaol i gyllido hyn. Mae bron i **£4mil** o gostau ad-leoli unwaith ac am byth yn 2015/16 (carped a bleindiau).

5.0 Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi tynhau gwariant ar adnoddau yn ystod y flwyddyn, oherwydd gorwariant - arbediad net oddeutu **£11mil** mewn cyfanswm.

6.0 Bellach nid yw'r targed incwm yn realistig, yn bennaf oherwydd y sefyllfa staffio a diffyg capasiti i gynnal unrhyw hyfforddiant fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Diffyg denu incwm oddeutu **£8mil** eleni ac angen darganfod arbedion parhaol i lenwi'r bwlch.

7.0 Mae'r uchod yn arwain at **gorwariant o £65mil** yn 2015/16.

8.0 Ar ddiwedd y flwyddyn ariannaol 2014/15 roedd balansau y Cyd-Bwyllgor AAA (Gwynedd ac Ynys Môn ar y cyd) yn **£150mil**.

9.0 Bydd defnyddio **£65mil** o'r balansau i gysoni gorwariant 2015/16 yn gadael oddeutu £85mil o falansau ar 31 Mawrth 2016.

10.0 Mae toriad 10% Ynys Môn wedi'i weithredu ac yn gadael bwlch o **£55mil** mewn termau real i'r Cyd-Bwyllgor ddarganfod yn barhaol. Mae angen adnabod cyfundrefn gwahaniaethol rhwng Gwynedd ac Ynys Môn i ddygymod â'r toriad.

**Argymhelliad**

1. Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor dderbyn yr adroddiad a chytuno i ddefnyddio o £65mil o balansau ar y cyd i gyllido'r gorwariant.

2. Gofyn i swyddogion symud ar frys i adnabod y lleihad yn y gwasanaethau ddarperir ar gyfer Ynys Môn er mwyn darganfod arbedion cyfwerth â £55mil.

3. Rhagweld beth fydd y sefyllfa gyllidol yn 2016/17 yn fuan a chymryd camau i ddatrus unrhyw broblem cyllidol.

4. Gofyn i gynghorau Gwynedd ac Ynys Môn am arweiniad ar gyfer cyllideb 2016/17.

# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

## ADOLYGIAD CYLLIDEB 2015/2016

| | sefydliad staffio Ebrill 2014 | Cyllideb 2015/2016 £ | amcan cynnydd / lleihad(-) £ | Adolygiad Cyfrifon 2015/2016 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | |
| Gweithwyr | | | | |
| Cyflogau | | | | |
| - Seicolegwyr | (8.1) | 536,310 | -60,430 | 475,880 |
| - Athrawon Arbenigol | (7.6) | 390,400 | 121,420 | 511,820 |
| - Gweinyddol | (6.4) | 193,380 | -25,180 | 168,200 |
| Hyfforddiant | | 9,520 | 12,520 | 22,040 |
| Yswiriant Atebolrwydd | | 3,000 | 0 | 3,000 |
| Adeilad | | | | |
| Trethi | | 4,940 | 270 | 5,210 |
| Rhent a Gwasanaethau | | 11,630 | 16,670 | 28,300 |
| Costau ad-leoli swyddfa | | 0 | 3,830 | 3,830 |
| Cludiant | | | | |
| Costau Teithio | | 50,780 | 0 | 50,780 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | | |
| Adnoddau / Deunydd Swyddfa | | 17,480 | -7,440 | 10,040 |
| Hysbysebu Cyfrifon Terfynol | | 0 | 1,080 | 1,080 |
| Ffi Archwilio | | 0 | 1,000 | 1,000 |
| Ffôn | | 8,960 | -5,960 | 3,000 |
| Post | | 1,880 | 100 | 1,980 |
| Costau Canolog Ynys Môn | | 1,630 | 0 | 1,630 |
| Costau Canolog Gwynedd | | 4,960 | 0 | 4,960 |
| Arbedion i'w darganfod - Ynys Môn | | -55,210 | 55,210 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant** | | 1,179,660 | 113,090 | 1,292,750 |
| **Incwm** | | | | |
| Incwm Allanol | | 9,440 | -8,240 | 1,200 |
| Llôg ar balansau | | 0 | 400 | 400 |
| Cyfraniad Cyngor Gwynedd | 64.27% | 752,046 | 0 | 752,046 |
| Cyfraniad Cyngor Sir Ynys Môn | 35.73% | 418,174 | 0 | 418,174 |
| **Cyfanswm Incwm** | | 1,179,660 | -7,840 | 1,171,820 |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | | 0 | 120,930 | 120,930 |

Balansau ar y cyd Gwynedd ac Ynys Môn 31 Mawrth 2015 £150,530